



# Diweddariad Pwysig i'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr

## Sylwch:

Dyma ddiweddariad i'n Cod Ymddygiad Myfyrwyr yng ngoleuni COVID-19. Ar gyfer prif God Ymddygiad Myfyrwyr y Coleg, parhewch i sgrolio i lawr y dudalen hon.

## Mae Coleg Cambria yn cymryd diogelwch a lles ei ddysgwyr, ei staff a'i ymwelwyr o ddifrif.

Mae'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr yn amlinellu enghreifftiau o'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gennych chi fel dysgwr er mwyn sicrhau eich bod chi, eich cyd-ddysgwyr a'n staff yn gallu dysgu a gweithio mewn amgylchedd diogel. Gyda hynny mewn golwg, rydym wedi diweddarau ein Cod Ymddygiad i sicrhau y gallwn gynnal yr amgylchedd diogel hwnnw yn wyneb y bygythiad presennol a achosir gan feirws Covid-19.

Mae'r Coleg wedi ad-drefnu ei ofodau yn unol â chanllawiau'r llywodraeth ac wedi nodi systemau un ffordd a phellteroedd corfforol yn glir i gadw staff a dysgwyr ar wahân.

Mae glanhau a diheintio ychwanegol hefyd yn digwydd a darperir cyfleusterau ar gyfer cynnal safonau hylendid.

Disgwylir i chi ddilyn y rheolau pellhau corfforol a hylendid, a bydd ein staff yn eich cefnogi yn hynny o beth.

Gallai unrhyw fyfyrwr sy'n torri rheolau pellhau neu hylendid roi eraill mewn perygl ac felly gofynnir iddynt adael adeilad y Coleg. Hefyd, bydd unrhyw un sy'n bygwth neu'n ceisio rhoi eraill mewn perygl o gael eu heintio yn fwriadol â Covid-19 yn ddarostyngedig i bolisi Disgyblu Dysgwyr y Coleg.

Mae'r sefyllfa a'r arweiniad yn newid yn barhaus a bydd eich tiwtor yn dweud wrthyich am unrhyw newidiadau eraill.

# COD YMDDYGIAD CAMBRIA

Rydym eisiau i chi fwynhau eich amser yn y coleg; i fod yn ddiogel, i gael eich parchu gan eraill a chael eich gwerthfawrogi. Beth bynnag rydych chi'n ei wneud: ar y safle neu oddi ar y safle, ar fws y coleg neu ar-lein gartref, **lle bynnag rydych chi, rydych chi'n fyfyrwr Coleg Cambria ac rydym yn disgwyl i chi ymddwyn mewn modd sy'n parchu eraill a'r coleg.**



Fel myfyrwr Coleg Cambria, byddaf yn:

## GWRTAIS AC YN OFALGAR

## BARCHUS

## GYFLOGADWY

## RHOI DIOGELWCH YN GYNTAF

## AWYDDUS I DDYSGU

## CYMRYD MANTAIS O BOB CYFLE

Byddaf:

Yn dathlu bod pobl yn wahanol i mi ac yn gweld pethau yn wahanol.

Wastad yn gwrtais ac yn gyfeillgar tuag at fyfyrwyr eraill, staff ac ymwelwyr.

Yn ystyried sut fydd eraill yn teimlo am yr hyn rwy'n ei ddweud a'i wneud.



Yn parchu cyfleusterau ac offer y coleg.

Yn defnyddio biniau'r coleg bob tro gan ailgylchu pan fedraf i.

Yn dilyn rheolau'r coleg.

Dim ond yn ysmegu neu ddefnyddio e-sigarét yn yr ardaloedd ysmegu dynodedig.



Yn mynychu pob gwera a bod yn brydlon.

Yn dod â'r holl offer sydd ei angen arnaf er mwyn bod yn barod i ddysgu.

Yn defnyddio iaith addas (dim rhegi). Mae hyn yn cynnwys ar rwydweithiau cyfryngau cymdeithasol.

Yn gwisgo'n addas ar gyfer fy nghwrs a fy nysgu.



Yn dilyn unrhyw reolau ynglŷn â sut i ymddwyn mewn gwersi a gweithdai.

Yn diffodd fy ffôn symudol (oni nodir fel arall).

Yn peidio â bwyta nac yfed (heblaw am ddŵr) mewn unrhyw ddsbarth neu weithdy.



Yn gweithio'n galed hyd eithaf fy ngallu.

Yn frwdfrydig ac yn bositif.

Yn cyflwyno gwaith mewn pryd, gan ddilyn y rheolau llym ynghylch llên-ladrad (copïo gwaith pobl eraill).



Yn ymdrechu i fod y gorau.

Bob amser yn credu "nid da lle gellir gwell"

Yn credu ac yn hyderus yn of fi fy hun

Yn gofyn am gyngor pan fo angen.



**Rwyf yn deall y bydd torri'r rheolau canlynol yn arwain at gamau disgyblu cyflym a gall olygu y bydd rhaid i mi efallai adael y coleg:**

- **Peidiwch â dod ag alcohol neu gyffuriau anghyfreithlon i'r coleg**, na bod o dan eu dylanwad tra byddwch yn y coleg neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau allanol.
- **Peidiwch â dod a chyllyll**, oni bai eich bod eu hangen fel rhan o offer hanfodol eich cwrs, **neu unrhyw beth arall y gellir ei ddefnyddio fel arf ymosodol**, i'r coleg neu ar gludiant y coleg.
- **Peidiwch ag ymladd, bod yn ymosodol, bwlio, aflonyddu, bygwth na dychryn pobl eraill mewn unrhyw ffordd**. Mae hyn yn cynnwys defnyddio safleoedd rhwydweithio cymdeithasol, e-byst, negeseuon testun a galwadau ffôn.